Cipolwg ar

# Strategaeth Tai a Buddsoddi

Rhondda Cynon Taf

Dyma drydydd rhifyn Cylchlythyr y Gwasanaeth Strategaeth Tai a Buddsoddi



**Cynnwys:**


Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol
Tudalen 2

Troi Tai'n Gartrefi
Tudalen 3

Grantiau Tai
Tudalen 4

Tai Fforddiadwy
Tudalen 5

Gwresogi ac Arbed
Tudalen 6-7

Rheoli Adeiladu
Tudalen 8



**RHIFYN: 03**
Haf 2024


Cyngor RhCT

www.rctcbc.gov.uk/**tai**

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg


52863-14 Awst 2024


RHONDDA CYNON TAF

# Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol

Ym mis Ionawr 2023, yn dilyn llwyddiant y cynllun rhanbarthol, Cynllun Tasglu'r Cymoedd, fe benododd Llywodraeth Cymru Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn Brif Awdurdod i fod yng ngofal rhoi'r Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol ar waith. Mae LLC wedi buddsoddi **£50miliwn** er mwyn sicrhau y gall eiddo sy'n wag yn hirdymor ledled Cymru (yn wag ers o leiaf 12 mis) gael eu defnyddio unwaith yn rhagor ac mae **£25,000** ar gael i wneud gwaith hanfodol, fesul eiddo.

Mae 17 Awdurdod Lleol nawr yn cymryd rhan yn y cynllun. Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Castell Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

Mae'r ymateb a niferoedd y bobl sy'n gwneud cais ar gyfer y cynllun wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt. Erbyn 31 Mawrth 2024:

**Roedd**
**1411**
**cais wedi dod i law a 623 ohonyn nhw'n ddilys.**
**O'r 623 cais dilys ddaeth i law, mae 133 (21%) yn RhCT.**

**Mae**
**244**
**cais wedi cael eu cymeradwyo gydag ymrwymiad o £5.7miliwn.**
**O blith y rhain mae 66 (27%) yn RhCT ac mae £1.6miliwn wedi ei ddyrannu i RhCT (28%).**

**Mae**
**30**
**cartref wedi'u hadnewyddu fel bod modd eu defnyddio unwaith yn rhagor, hyn yn sgil gwariant o £604 mil o bunnoedd.**
**O blith y rhain mae 16 (53%) yn RhCT ac mae £336 mil wedi'i ddyrannu i RhCT (56%).**

Mae'r cyllid yma'n golygu bod cartrefi gwag ledled Cymru yn gallu cael eu defnyddio drachefn ac mae'n helpu i fynd i'r afael â materion fel prinder tai, ac adeiladau'n mynd yn adfeilion yn y gymuned.

## Adborth:

Mae un o Breswylwyr Rhondda Cynon Taf wedi bod yn myfyrio ar y profiad o dderbyn y Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol, wedi iddo gwblhau'r gwaith adnewyddu yn ei gartref. Mae'r preswylydd yma wedi derbyn £25,000 o grant cyllid.

"*Hoffwn i rannu fy niolch personol gyda'r Garfan Grantiau Cartrefi Gwag gyfan, o Swyddogion Gweinyddol i Syrfewyr Grantiau; mae pob un ohonyn nhw wedi cymryd yr amser i roi cymorth i mi a fy helpu drwy'r broses grantiau. Cefais ateb i bob e-bost a anfonais i, yn brydlon, ac roedd y swyddogion yn garedig a chwrtais gyda mi ar y ffôn bob amser. Cefais ateb i bob un o fy nghwestiynau yn brydlon... ac roedd gen i lawer ohonyn nhw! Roedd y broses gwneud cais am grant yn un weddol rwydd yn y pen draw o ganlyniad i'r holl gymorth gan y garfan, a dyma ailadrodd bod y garfan gyfan wedi bod yn wych drwy gydol y broses. Rwy'n edrych ymlaen at fwynhau ein cartref newydd am flynyddoedd lawer i ddod.*"

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r garfan Grantiau a Benthyciadau Tai:**

✉ GrantiauCartrefiGwag@rctcbc.gov.uk
☎ 01443 494712

# Troi Tai'n Gartrefi

Mae benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi yn cael eu cynnig trwy'r fenter Troi Tai'n Gartrefi at ddibenion gwneud gwaith adnewyddu a gwelliannau i eiddo unigol neu ei drosi'n nifer o unedau fel eu bod nhw'n addas i'w defnyddio yn llety preswyl.

Hyd yn hyn, mae Troi Tai'n Gartrefi wedi creu 247 o unedau preswyl newydd ar gyfer preswylwyr RhCT.

Mae Cyngor RhCT hefyd wedi ffurfio partneriaeth â Bancio Cymunedol Robert Owen i gynnig benthyciad di-log i berchen-feddianwyr (perchnogion sy'n feddianwyr). Mae benthyciadau ar gael am symiau rhwng £1000 a £10,000 ac mae modd eu talu yn ôl dros gyfnod o hyd at 5 mlynedd; does dim ffioedd am ad-dalu'n gynnar a dim ffioedd sefydlu. Mae Benthyciadau Di-log Bancio Cymunedol Robert Owen wedi helpu i wneud gwelliannau i 175 eiddo ledled RhCT, a'u diweddaru.

Mae 8 eiddo'n rhagor wedi cael budd o'r Benthyciad Gwerthfawrogi Eiddo, sy'n fenthyciad ar gyfer perchen-feddianwyr nad ydyn nhw'n gymwys i gael Benthyciad Gwella Cartrefi. Dim ond pan fydd yr eiddo yn cael ei werthu y bydd gofyn ad-dalu'r benthyciad i'r Awdurdod.

Mae cyfanswm o £7.175miliwn o gyllid wedi cael ei gymeradwyo a'i dalu drwy'r cynlluniau yma. Y bwriad yw y bydd y cyllid ar gael o hyd tan 2030 ac mae gwybodaeth ynghylch yr amrywiol grantiau a benthyciadau sydd ar gael yn y ddolen isod.

**www.rctcbc.gov.uk/GrantiauaBenthyciadauTai**

# Astudiaeth Achos:

Eiddo teras (canol) yng Nghwm Rhondda Fawr, oedd wedi bod yn wag ers dros 3 blynedd ac sydd wedi elwa yn sgil Benthyciad Troi Tai’n Gartrefi gwerth £25,000.

Cafodd y gwaith ei gwblhau dros gyfnod o 6 mis yn rhan o fuddsoddiad gwerth cyfanswm o £40,000.  Mae'r eiddo bellach wedi'i rentu i deulu lleol.

Dyma un o dros 240 uned preswylio sydd bellach ar gael i drigolion Rhondda Cynon Taf yn sgil y cynllun yma.






**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Garfan Strategaeth Dai:**

✉ TroiTainGartrefi@rctcbc.gov.uk
☎ 01443 281136





# Grantiau Tai

## Grant Cymorth Cynnal a Chadw ac Adnewyddu -

**£575 mil**

O wariant er mwyn bod yn gymorth i berchnogion tai preifat, 60 oed a hŷn, ymgymryd â gwaith atgyweirio yn eu cartrefi.

## Grant Cyfleusterau ar gyfer Pobl Anabl -

**£6.6miliwn**

wedi'i wario er mwyn rhoi cymorth i breswylwyr RhCT fyw yn annibynnol a pharhau i fyw'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

## GALLUOGI -

**£476 mil**

wedi'i wario o gyllid Llywodraeth Cymru i fod yn gymorth i gleientiaid gofal lliniarol aros yn eu cartrefi eu hunain, a hefyd ar wneud mân addasiadau ar gyfer 693 o breswylwyr.

## Cynnig llwyddiannus gwerth

**£344,412**

## o'r Gronfa Tai â Gofal

wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru i fod yn gefn i'n rhaglen Grant Cyfleusterau ar gyfer Pobl Anabl; rhaglen ar gyfer gwneud addasiadau yng nghartrefi preswylwyr yn RhCT.

# Tai Fforddiadwy



## Clos Heddfan a Llys Tŷ Garth

Mae cynllun Clos Heddfan yn Rhydfelen wedi cael buddsoddiad gwerth £6.7 miliwn i adeiladu 35 cartref ar y safle. Fe gafodd Tai Hafod gyfraniad gwerth £4 miliwn ar gyfer y cynllun drwy'r Grant Tai Cymdeithasol; ariannodd Tai Hafod y gweddill ei hunan. Mae'r cynllun wedi'i leoli ar hen safle swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r hen swyddfa wedi'i dymchwel er mwyn codi'r tai fforddiadwy yma yn yr ardal.

Mae ail gynllun Tai Hafod, Llys Tŷ Garth, wedi'i leoli yn Ffynnon Taf. M J Cosgrove sydd wedi adeiladu'r 20 tŷ, gyda'r cynllun yn costio £3.4 miliwn. Cafodd Tai Hafod gyfraniad gwerth £2.1 miliwn drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, gyda'r gweddill wedi'i ariannu'n breifat gan Tai Hafod.

Meddai'r Cyng. Bob Harris – Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau:

***"Fe hoffwn i ddiolch i Hafod am y gwahoddiad i ymweld â Chlos Heddfan a Llys Tŷ Garth. Roedd cael ein tywys o amgylch datblygiad Heddfan gan Hafod a chyfarwyddwyr ASD Ltd yn brofiad gwych. Mae safon y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar y safle yn arbennig ac rwy'n sicr bydd y rhai fydd yn byw yn y cartrefi yma maes o law yn hapus iawn.***

***Pleser oedd ymweld â Llys Tŷ Garth yn Ffynnon Taf hefyd, i siarad â'r trigolion sydd nawr yn byw yn eu cartrefi newydd. Braf iawn oedd clywed eu bod nhw i gyd yn hapus, a'u bod nhw wedi llwyddo i feithrin teimlad o berthyn i gymuned."***

# Ceisio Cartref



Mae'r cynllun Ceisio Cartref yn cael ei reoli gan RhCT ac mae'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â datblygwyr preifat er mwyn helpu pobl sy'n prynu cartrefi am y tro cyntaf i gymryd cam ar yr ystol eiddo drwy gynnig cartrefi newydd sbon am brisiau fforddiadwy.

Mae Ceisio Cartref yn galluogi ymgeiswyr cymwys i brynu cartref am ganran o'i werth llawn yn y farchnad (70% fel arfer) gyda'r Cyngor yn cadw'r gyfran sy'n weddill o eiddo rhyddfraint y tŷ.


Ymhlith y datblygiadau cyfredol a'r rhai sydd ar y gweill:

- **Datblygiad Coed Derw yn Llanilltud Faerdref gan Bellway Homes.**
- **Datblygiad Michaels Grove yn Llanharan gan Persimmon Homes**
- **Datblygiad Cwm Heulwen yn Aberdâr gan Davies Homes.**



***"All fy mhartner a minnau ddim argymell Ceisio Cartref ddigon, mae'r garfan wedi bod yn arbennig ac wedi'n tywys pob cam o'r ffordd. Rydyn ni wedi bod yn ystyried prynu ein heiddo ein hunain am tua dwy flynedd ond oherwydd ein hincwm ni'n dau, rydyn ni wedi ei chael hi'n anodd byw yn agos at gartref. Gyda'r rhaglen yma rydyn ni wedi gallu fforddio cartref hyfryd sy'n eiddo newydd a does dim rhaid i ni boeni am dalu rhent ar y 30% sy'n weddill. O'r dechrau i'r diwedd, rydyn ni wedi cael ymatebion cyflym gan y gwasanaeth, fe fyddwn i'n argymell i unrhyw un sy'n chwilio am eu cartref cyntaf ystyried y cynllun yma. -*** Nathan"

# Gwresogi ac Arbed



Mae Carfan yr Hwb Gwresogi ac Arbed wedi bod yn parhau i roi cymorth i gartrefi er mwyn helpu i leihau tlodi tanwydd. Mae'r garfan wedi bod yn mynychu nifer o achlysuron ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn meithrin perthnasoedd gwaith agosach ag asiantaethau fel Cyngor ar Bopeth.

Yn sgil yr Argyfwng Costau Byw yn ogystal â Covid-19 mae cynnydd wedi bod yn nifer y cartrefi sy'n wynebu problemau cymhleth yn ymwneud ag ynni, ac y mae angen cymorth pellach arnyn nhw. Mae wedi'i gydnabod yn eang nad yw un dull yn mynd i liniaru effaith tlodi tanwydd ac mae'r Cyngor yn frwd ynghylch darparu gwasanaeth holistaidd trwy'r Hwb Gwresogi ac Arbed.

Mae Gwresogi ac Arbed nid yn unig yn galluogi gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi drwy grantiau a chynlluniau sydd eisoes ar waith ac ar gael, mae hefyd yn fodd o fod yn gefn i breswylwyr gael rhagor o gymorth fel tocynnau banciau tanwydd, a chyngor ynghylch buddion llesiant a benthyciadau'n ymwneud ag ynni, ac mae'n fodd o'u cyfeirio at y rhain.

## Grantiau Gwresogi ac Arbed – Paneli Solar Ffotofoltaidd

Mae'r ddau grant sy'n cael eu cyllido o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn parhau'n boblogaidd a hyd yn hyn mae mwy na 100 grant Paneli Solar Ffotofoltaidd a mwy na 210 grant gwresogi wedi eu dyrannu i breswylwyr ledled RhCT gan wneud eu cartrefi'n fwy effeithlon o ran ynni a gan leihau eu biliau ynni. Mae cynnydd o 60% wedi bod yn nifer y cartrefi sydd wedi cael cymorth yn sgil y grant gwresogi o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi golygu rhoi 310 grant o'r SPF sydd gyfwerth â buddsoddiad o oddeutu £500 mil ar gyfer preswylwyr RhCT.

## ECO 4 Flex

Ddiwedd Tachwedd 2023 fe lansiodd y Cyngor ei gynllun ECO 4 Flex hefyd; mae hwn yn Gynllun gan Lywodraeth San Steffan, sydd ar waith ledled y DU, ac sy'n cael ei ariannu gan gwmnïau ynni; caiff y preswylydd ddewis unrhyw gwmni/gweithiwr gosod offer i wneud y gwaith cyn belled â bod y cwmni/gweithiwr hwnnw wedi sicrhau'r cyllid angenrheidiol a'i fod wedi'i achredu i wneud y gwaith gosod ar gyfer y cynllun. Er ei fod yn cael ei ystyried yn gynllun ar gyfer y farchnad breifat, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio ei rôl yn hwylusydd i ofalu am broses gwneud ceisiadau'r cynllun a cheisio sicrhau peth o'r cyllid allanol yma ar gyfer ardal RhCT.

Mae ECO 4 yn gynllun â nifer o fesurau ar gyfer rhoi cymorth i gartrefi o ran perfformiad ynni isel. Hyd yn hyn, mae 41 cais wedi dod i law ac mae'r niferoedd yn cynyddu.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynghylch y cynlluniau yma, a'r gwaith mae ein Carfan Gwresogi ac Arbed yn ymgymryd ag e, drwy ddilyn y ddolen yma:

**www.rctcbc.gov.uk/GwresogiacArbed**

# Astudiaeth Achos:

**Mr Chick**

Cafodd Mr Chick grant cyllid SPF ar gyfer Paneli Solar Ffotofoltaidd, a bu hynny'n gymorth iddo wneud gwelliannau i'r paneli solar oedd ganddo'n barod ag optimeiddwyr solar edge. Fe gododd hyn berfformiad ynni ei gartref o lefel C ar ei Dystysgrif Perfformiad Ynni i A, sef y lefel uchaf sy'n bosib o ran perfformiad. Dywedodd Mr Chick, wedi iddo wneud gwaith cyfrifo ar ei filiau ynni, ei fod yn disgwyl arbed hyd at £650 yn flynyddol.

**Dyma enghraifft heb ei hail o breswylydd sydd am gynhyrchu ynni glanach adnewyddadwy a gwneud arbedion sylweddol i filiau'r cartref.**

> ***Mae fy nghartref nawr yn gynnes braf ac mae digonedd o ddŵr twym ar gael. Llawer o ddiolch i chi am eich cymorth wrth wneud hyn yn bosib. A fyddech chi cystal â rhannu fy niolch â phawb sydd ynghlwm â'r gwaith.***
>
> Mr C sydd wedi derbyn grant gwresogi



Roedd ein Swyddog Strategaeth Cartrefi Keryl Lanfear yn falch o siarad yn y Gynhadledd Argyfwng Ynni ddiweddar yng Nghaerdydd a chefnogi National Energy Action Cymru.  Fe roddodd Keryl sylw i sut y gall yr Awdurdod Lleol fod yn gefn i breswylwyr sy'n byw yn RhCT i wneud eu cartrefi'n fwy twym a lleihau biliau ynni, ac fe rannodd hi wybodaeth ynghylch hyn.

**I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch y Garfan Gwresogi ac Arbed ar :**

✉ GwresogiacArbed@rctcbc.gov.uk
☎ 01443 281136

# Rheoli Adeiladu

**Cynlluniau Llawn**
**136** wedi'u cymeradwyo

**Hysbysiadau ynghylch Adeiladu**
**390** wedi'u cymeradwyo

**Strwythurau Anniogel**
**203** ymyriad at ddibenion sicrhau nad oes perygl i'r cyhoedd

## Ymhlith y rhain mae'r prif ddatblygiadau a ganlyn:

- Ysgolion y 21ain Ganrif, newydd: Ysgol Gynradd Pont-y-clun, Ysgol Cyfrwng Cymraeg Newydd yn Rhydfelen, ac Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi
- Datblygiad adeiladu tai newydd yng Nghwm Heulwen
- Swyddfeydd RhCT yn Llys Cadwyn
- Cyfleusterau Gofal Cartref yn Y Porth
- Gwaith adnewyddu i adeilad y Muni







Pe hoffech chi gael cyngor ynglŷn â'ch gwaith adeiladu gan aelod o'r Garfan Rheoli Adeiladu, cysylltwch â nhw trwy:

✉ rheoliadeiladu@rctcbc.gov.uk
☎ 01443 281156